01-NGIS-ROD (v4.03)

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

Enw cyntaf	**Rhif GIG** (neu god post, os nad ydych yn gwybod y Rhif GIG)
Cyfenw	**Dyddiad geni**

Record of Discussion Regarding Genomic Testing

Cofnod o Drafodaeth am Brofi Genomig

This form relates to the person being tested. One form is required for each person.

All of the statements below remain relevant even if the test relates to someone other than yourself, for example your child.

Mae'r ffurflen hon yn ymwneud â'r person sy'n cael ei brofi. Mae angen un ffurflen ar gyfer pob unigolyn.

Mae'r holl ddatganiadau isod yn parhau'n berthnasol hyd yn oed os yw'r prawf yn ymwneud â rhywun heblaw eich hun, er enghraifft eich plentyn.

I have discussed genomic testing with my health professional and understand the following

Rwyf wedi trafod profion genomeg gyda'm gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn deall y canlynol

Family and wider implications

1. The results of my test may have implications for me and members of my family. I understand that my results may also be used to help the healthcare of members of my family and others nationally and internationally. This could be done in discussion with me or through a process that will not personally identify me.

Goblygiadau teuluol ac ehangach

1. Efallai y bydd gan ganlyniadau fy mhrawf oblygiadau i mi ac aelodau o'm teulu. Deallaf y gellir defnyddio fy nghanlyniadau hefyd i helpu gyda gofal iechyd aelodau o'm teulu a phobl eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gellid gwneud hyn drwy drafodaeth â mi neu drwy broses fydd yn golygu na fydd modd fy adnabod yn bersonol.

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

Uncertainty

2. The results of my test may have findings that are uncertain and not yet fully understood. To decide whether findings are significant for myself or others, my data may be compared to other patients' results across the country and internationally. I understand that this could change what my results mean for me and my treatment over time.

Ansicrwydd

2. Efallai y bydd gan ganlyniadau fy mhrawf ganfyddiadau sy'n ansicr ac nad ydynt wedi'u deall yn llawn eto. Er mwyn penderfynu a yw'r canfyddiadau'n arwyddocaol i mi neu i eraill, gellir cymharu fy nata â chanlyniadau cleifion eraill ledled y wlad ac yn rhyngwladol. Deallaf y gallai hyn newid yr hyn y mae fy nghanlyniadau'n ei olygu i mi a'm triniaeth dros amser.

Unexpected information

3. The results of my test may also reveal unexpected results that are not related to why I am having this test. These may be found by chance and I may need further tests or investigations to understand their significance.

Gwybodaeth annisgwyl

3. Gallai canlyniadau fy mhrawf hefyd ddatgelu canlyniadau annisgwyl nad ydynt yn gysylltiedig â pham yr wyf yn cael y prawf hwn. Gellir dod o hyd i'r rhain ar hap, ac efallai y bydd angen profion neu ymchwiliadau pellach arnaf i ddeall eu harwyddocâd.

DNA storage

4. Normal NHS laboratory practice is to store the DNA extracted from my sample even after my current testing is complete. My DNA might be used for future analysis and/or to ensure that other testing (for example that of family members) is of high quality.

Storio DNA

4. Dull arferol labordy'r GIG o weithredu yw storio'r DNA a dynnwyd o'm sampl hyd yn oed ar ôl i'm profion presennol gael eu cwblhau. Gellid defnyddio fy DNA ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol a/neu i sicrhau bod profion eraill (er enghraifft rhai aelodau o'r teulu) o ansawdd uchel.

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

Data storage

5. The data from my genomic test will be securely stored so that it can be looked at again in the future if necessary.

Storio data

5. Bydd y data o'm prawf genomeg yn cael ei storio'n ddiogel fel y gellir edrych arno eto yn y dyfodol os oes angen.

Health records

6. Results from my genomic test will be part of my patient record, a copy of which is held in a national system only available to healthcare professionals.

Cofnodion iechyd

6. Bydd canlyniadau fy mhrawf genomeg yn rhan o'm cofnod claf, y cedwir copi ohono mewn system genedlaethol sydd ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn unig.

Research

7. I understand that I have the opportunity to take part in research which may benefit myself or others, now or in the future. An offer to join a national research opportunity is available on the following page.

Ymchwil

7. Rwy'n deall fy mod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil a allai fod o fudd i mi neu i eraill, nawr neu yn y dyfodol. Mae cynnig i ymuno â chyfle ymchwil cenedlaethol ar gael ar y dudalen ganlynol.

For any further questions, my healthcare professional can provide information. More information regarding genomic testing and how my data is protected can be found at www.nhs.uk/conditions/genetics

Ar gyfer unrhyw gwestiynau pellach, gall fy ngweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am brofion genomeg a sut y caiff fy nata eu diogelu ar gael yn www.nhs.uk/conditions/genetics

Please sign on page seven to confirm your agreement to the genomic test.

Llofnodwch dudalen saith i gadarnhau eich cytundeb i'r prawf genomeg.

01-NGIS-ROD (v4.03)

First name	NHS number (or postcode if not known)
Last name	Date of birth

The National Genomic Research Library
Y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol

The NHS invites you to contribute to the National Genomic Research Library, managed by Genomics England.

Genomics England was set up in 2013 by the Department of Health and Social Care to work with the NHS to build a library of human genomes for researchers to study. Combining data from many different patients helps researchers to better understand disease and spot patterns in the data.

By agreeing to share your data you might get results which could lead to your own diagnosis, a new treatment, or offers to take part in clinical trials. Your taking part could enable diagnoses for people who don't have one.

Please read the following statements. Feel free to ask any questions before making a decision.

Mae'r GIG yn eich gwahodd i gyfrannu at y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol, a reolir gan Genomeg Lloegr.

Sefydlwyd Genomeg Lloegr yn 2013 gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i weithio gyda'r GIG i adeiladu llyfrgell o genomau dynol i ymchwilwyr eu hastudio. Mae cyfuno data gan lawer o wahanol gleifion yn helpu ymchwilwyr i ddeall clefydau'n well a nodi patrymau yn y data.

Drwy gytuno i rannu eich data, efallai y cewch ganlyniadau a allai arwain at eich diagnosis eich hun, triniaeth newydd, neu gynigion i gymryd rhan mewn treialon clinigol. Gallai eich cyfranogiad alluogi diagnosis i bobl nad ydynt wedi cael un.

Darllenwch y datganiadau canlynol. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau cyn gwneud penderfyniad.

01-NGIS-ROD (v4.03)

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

By saying 'yes' to research, I understand the following

Drwy gytuno i'r ymchwil, rwy'n deall y canlynol

The National Genomic Research Library

1. NHS England, on behalf of the Trusts that provided your genomic test, will allow Genomics England to access my personal data including my genomic record.

Y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol

1. Bydd GIG Lloegr, ar ran yr Ymddiriedolaethau a ddarparodd eich prawf genomeg, yn caniatáu i Genomeg Lloegr gyrchu fy nata personol, gan gynnwys fy nghofnod genomeg.

Security

2. Any samples and data stored by Genomics England and the NHS will always be stored securely. Genomics England will take all reasonable steps to ensure that I cannot be personally identified.

Diogelwch

2. Bydd unrhyw samplau a data sy'n cael eu storio gan Genomeg Lloegr a'r GIG bob amser yn cael eu storio'n ddiogel. Bydd Genomeg Lloegr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na allaf gael fy adnabod yn bersonol.

Re-contact

3. My clinical team or Genomics England together with my clinical team, can contact me if the data or samples reveals any clinical trials or other research that I might benefit from.

4. If something is relevant to me or my family, there is a process by which this will be shared with my NHS clinical team.

Ailgysylltu

3. Gall fy nhîm clinigol, neu Genomeg Lloegr ynghyd â'm tîm clinigol, gysylltu â mi os bydd y data neu'r samplau'n datgelu unrhyw dreialon clinigol neu ymchwil arall y gallwn elwa ohonynt.

4. Os bydd rhywbeth yn berthnasol i mi neu i'm teulu, mae proses ar gyfer rhannu hyn â fy nhîm clinigol y GIG.

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

Data and sample usage

5. Researchers may include national or international scientists, healthcare companies and NHS staff. To access the data, these researchers must all be approved by an independent committee of experts, including health professionals, clinical academics and patients. There will be no access to the data by personal insurers and marketing companies.

Defnyddio'r sampl a data

5. Gallai ymchwilwyr gynnwys gwyddonwyr cenedlaethol neu ryngwladol, cwmnïau gofal iechyd a staff y GIG. Er mwyn cyrchu'r data, rhaid i'r ymchwilwyr hyn i gyd gael eu cymeradwyo gan bwyllgor annibynnol o arbenigwyr, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, academyddion clinigol a chleifion. Ni fydd yswirwyr personol na chwmnïau marchnata yn cael gweld y data.

Data storage

6. Genomics England will collect different aspects of my health data from the NHS and other data from organisations listed at https://www.genomicsengland.co.uk/privacy-policy/. The collection and analysis of my health data for research will continue across my entire lifetime and beyond.

Storio data

6. Bydd Genomeg Lloegr yn casglu gwahanol agweddau ar fy nata iechyd o'r GIG a data eraill gan sefydliadau a restrir yn https://www.genomicsengland.co.uk/privacy-policy/. Bydd casglu a dadansoddi fy nata iechyd ar gyfer ymchwil yn parhau trwy gydol fy oes a'r tu hwnt.

Withdrawal

7. I can change my mind about taking part at any time.

More information regarding research in the National Genomic Research Library can be found at www.genomicsengland.co.uk. For any further questions, my healthcare professional can provide information.

Tynnu'n Ôl

7. Gallaf newid fy meddwl am gymryd rhan ar unrhyw adeg.

Mae rhagor o wybodaeth am ymchwil yn y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol ar gael yn www.genomicsengland.co.uk. Ar gyfer unrhyw gwestiynau pellach, gall fy ngweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu gwybodaeth.

Please use page seven to indicate your research choices.

Defnyddiwch dudalen saith i nodi eich dewisiadau ymchwil.

01-NGIS-ROD (v4.03)

First name	NHS number (or postcode if not known)
Last name	Date of birth

Confirmation of Your Genomic Test and Research Choices

Cadarnhad o'ch Dewisiadau ar gyfer Profion Genomeg ac Ymchwil

I confirm that I have had the opportunity to discuss information about genomic testing, I agree to the genomic test, and my research choice is indicated below.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi cael cyfle i drafod gwybodaeth am brofion genomeg, cytunaf i'r prawf genomeg, a nodir fy newis o ran ymchwil isod.

A. **I have discussed taking part in the National Genomic Research Library** **YES | NO**

If your answer to A is **NO** *then please ignore B and sign directly below*

A. **Yr wyf wedi trafod cymryd rhan yn y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol** **YDW | NAC YDW**

Os ateboch chi **NAC YDW***i A, anwybyddwch B a llofnodwch yn uniongyrchol isod*

B. **I agree that my data and remainder sample may contribute to the National Genomic Research Library** **YES | NO**

B. **Rwy'n cytuno y gall fy nata a'm sampl sy'n weddill gyfrannu at y Llyfrgell Ymchwil Genomeg Genedlaethol** **YDW | NAC YDW**

Patient name	Signature	Date
.....	.....	

If you are signing this form on behalf of someone else (children, adults without capacity or deceased patients) then please sign below.

Parent | Guardian | Consultee name*	Signature	Date
please amend as appropriate		
.....	.....	

Enw'r claf	Llofnod	Dyddiad
.....	.....	

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall (plant, oedolion heb allu neu gleifion sydd wedi marw), llofnodwch isod.

Enw'r Rhiant | Gwarcheidwad | Ymgynghorai*	Llofnod	Dyddiad
newidiwch fel y bo'n briodol		
.....	.....	

01-NGIS-ROD (v4.03)

First name	**NHS number** (or postcode if not known)
Last name	**Date of birth**

Patient category	Adult (made their own choices) Adult lacking capacity (choices advised by consultee) Child (parent or guardian choices)	Clinician has agreed to the test (in the patient's best interests) Deceased (choices made on behalf of deceased individual)
Test type	Rare and Inherited Diseases - WGS	Cancer (paired tumour normal) - WGS
If answer to research choice A is *NO*	Patient would like to discuss at a later date Patient lacks capacity and no consultee available	Inappropriate to have discussion Other
Remote consent	Recorded remotely by clinician, no patient signature	
Responsible clinician		
Hospital number		

Healthcare professional use only

To be completed by the healthcare professional recording the patient's choices.

Healthcare professional name	**Signature**	**Date**

At ddefnydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn unig

I'w gwblhau gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cofnodi dewisiadau'r claf.

Categori'r claf	Oedolyn (wedi gwneud ei ddewisiadau ei hun) Oedolyn heb allu (dewisiadau gyda chyngor ymgynghorai) Plentyn (dewisiadau rhiant neu warcheidwad)	Mae clinigydd wedi cytuno i'r prawf (er budd gorau i'r claf) Wedi marw (dewisiadau wedi'u gwneud ar ran unigolyn sydd wedi marw)
Math o brawf	Clefydau Prin a Chlefydau Etifeddol - WGS	Canser (pâr tiwmor normal) - WGS
Os mai'r ateb i ddewis ymchwil A yw *NAC YDW*	Hoffai'r claf drafod yn ddiweddarach Nid oes gan y claf y gallu ac nid oes ymgynghorai ar gael	Amhriodol cael trafodaeth Arall
Cydsyniad o bell	Wedi'i gofnodi o bell gan glinigydd, dim llofnod claf	
Clinigydd cyfrifol		
Rhif ysbyty		

Enw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol	**Llofnod**	**Dyddiad**